



## **PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 18 Medi 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd H Boggis
Y Cyngorydd J Bonetto	Y Cyngorydd J Brencher
Y Cyngorydd A Calvert	Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd J Cullwick	Y Cyngorydd G Davies
Y Cyngorydd J Davies	Y Cyngorydd L De Vet
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd S.Evans	Y Cyngorydd M Forey
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd G Holmes	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd P Howe	Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd D Macey	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd K Morgan	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd Owen-Jones
Y Cyngorydd W Owen	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S Powell	Y Cyngorydd S. Rees-Owen
Y Cyngorydd S Rees	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd G Stacey
Y Cyngorydd E Stephens	Y Cyngorydd M Tegg
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd L Walker
Y Cyngorydd M Weaver	Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd E Webster	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd G Williams	Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd R Yeo	

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol  
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu  
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen  
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

## 53 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick, G. Caple, A. Davies-Jones, M. Diamond, M. Fidler Jones, A Fox, Fychan, E.M. Griffiths, L. Hooper, J. James, K. Libby-Jones. L. Jones, G. Thomas ac R. Turner.

## 54 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak - eitem 5(1): "Rwyf ar Gorff Llywodraethu YGG Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Cilfynydd ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Stephens - eitem 11(A): "Byddai'r rheilffordd yn mynd yn syth heibio fy nhŷ i"

## 55 CYHOEDDIADAU

- Ar ran yr holl Aelodau, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddymuno gwellhad buan i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Diamond yn dilyn ei salwch diweddar.
- Aeth yr Arweinydd ati i atgoffa'r Aelodau y bydd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dod i gyfarfod nesa'r Cyngor (23 Hydref 2019), a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau gael rhagor o sicrwydd ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i drigolion. O ganlyniad i bwysigrwydd yr eitem yma, byddai angen gohirio rhai o'r eitemau Busnes y Cyngor a oedd ar agenda gwreiddiol y cyfarfod dan sylw.
- Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n bosibl y bydd angen galw Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor er mwyn trafod goblygiadau Brexit ar 29 Hydref am 5pm. Caiff y dyddiad yma'i gadarnhau yn nes at yr amser, fodd bynnag, gofynnodd i'r Aelodau nodi'r dyddiad yn eu dyddiaduron yn y cyfamser.
- Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sera Evans wrth yr Aelodau fod Treorci wedi'i henwebu ar gyfer 'Gwobrau'r Stryd Fawr Prydain Fawr'. Nododd mai dim ond dwy dref arall yng Nghymru sydd wedi'u henwebu, sef Abertawe ac Arberth. Mae'r dref wrthi'n paratoi am ymweliad y beirniaid ar 24 Medi. Nododd y Cynghorydd Evans y byddai ennill y wobwr yn gyflawniad arbennig i'r dref, ac yn gaffaeliad eithriadol i'r sir gyfan. Aeth y Cynghorydd Evans ymlaen i ofyn i bob Aelod fwrw pleidlais, a

chytunodd i ddarparu'r [ddolen](#) ar gyfer y gystadleuaeth.

- Gofynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sera Evans am gyfraniadau gan yr Aelodau ar gyfer ei hymgyrch codi arian (Hanner Marathon Caerdydd) ar ran elusen Halcyon Foundation. Cyfeiriodd at ei sgysiau blaenorol yn Siambr y Cyngor ynglŷn â'r cymorth y mae hi â'i theulu wedi'i gael gan elusen Halcyon Foundation, sy'n helpu teuluoedd plant a phobl ifainc ar y sbectrwm awtistig ac yn llenwi'r bylchau nad oes modd i'r GIG eu llenwi bob tro. Gofynnodd y Cynghorydd Evans a fyddai'r Aelodau yn fodlon ei noddi hi ar gyfer yr achlysur, a chytunodd i anfon y ddolen ar gyfer ei thudalen "Just Giving" at bob Aelod.
- Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey fod ei fab, Lloyd Macey, yn mentora'r 'Mini's' yn rhan o gystadleuaeth Youth Eurovision, a gofynnodd i'r Aelodau ei gefnogi a phleidleisio dros y grŵp.
- Hefyd, dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey fod Ysgol Gynradd Ynys-hir wedi llwyddo i ddod i'r brig mewn dau gategori yn rhan o'r gystadleuaeth 'Big Draw', a bydd disgyblion yn teithio i seremoni wobrwyo'r 'Big Draw Festival Awards' ym Manceinion ar 28 Medi i dderbyn y wobwr. Gofynnodd yr Aelod pe byddai modd i'r Aelodau wneud cyfraniad er mwyn helpu'r ysgol i gyrraedd y Seremoni Wobrwyo, a chyfeiriodd at y cymorth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Glwb Rotari Rhondda ar ffurf nawdd.
- Soniodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams am lwyddiant y grŵp dawnsio 'Streetwise', a lwyddodd i ennill 10 tlws mewn cystadleuaeth ddiweddar yn Blackpool, yn ogystal â chael ei enwi'n bencampwr y byd.
- Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser y newyddion diweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol. Bwriad y rhaglen yw atal plant rhag mynd heb fwyd yn ystod gwyliau'r haf, gwella iechyd plant a hybu dysgu drwy raglen o weithgareddau cyfoethogi. Clywodd yr Aelodau fod ysgolion yn cael eu dewis am fod canran uchel o'u disgyblion yn cael Prydau Ysgol am Ddim, ac, er bod y rhaglen wedi'i hanelu at ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, mae hi hefyd yn croesawu brodyr a chwiorydd y disgyblion hynny cyn belled â'u bod nhw'n hŷn na 5 oed. Dywedodd y Cynghorydd Rosser y cafodd y rhaglen ei rhoi ar waith mewn 7 ysgol, ac roedd un o'r rheiny'n ysgol arbennig. Serch hynny, mewn gwirionedd, roedd disgyblion o 16 o ysgolion wedi cymryd rhan, gan fod y rhaglen wedi'i hystyngi i gynnwys plant o ysgolion cyfagos. Cafodd manylion am y rhaglen eu darparu, gan gynnwys gwybodaeth am y gwaith ymgysylltu â rhieni a gwarcheidwaid a'r cymorth gan asiantaethau partner fel Trivallis. Cynhaliwyd seremoni raddio ar ddiwedd y rhaglen, ac fe ddaeth rhieni, Aelodau'r Cabinet a Chynghorwyr iddi hi. I gloi, darlennodd y Cynghorydd Rosser ddyfyniadau o'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan ddisgyblion a rhieni ynglŷn â'r rhaglen.
- Ymunodd yr Aelodau â Chynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell ac W Jones, a wnaeth ddymuno'n dda i Cory Hill, Dillon Lewis, Tomos Williams a gweddiill Carfan Rygbi Cymru ym mhencampwriaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan.

**56 COFNODION**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019, yn rhai cywir.

**57 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- 1. Yn absenoldeb Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Griffiths, dywedodd y Cadeirydd na fyddai ei chwestiwn i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser, Aelod o'r Cabinet ar faterion, yn cael ei ofyn.**

\*\*\*

- 2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet amlinellu'r cynnydd sydd wedi mynd rhagddo mewn perthynas â'r gwaith gwella i drac athletau Brenin Siôr V, a phryd y mae disgwyl i ddefnyddwyr allu manteisio ar y cyfleuster newydd?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

"Dywedodd y Cynghorydd Crimmings y byddai modd i'r rhan fwyaf o'r Aelodau weld y gwaith sy'n mynd rhagddo wrth deithio i Bencadlys y Cyngor, gan ychwanegu bod y gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar y gwaith tir.

Clywodd yr Aelodau fod system ddraenio newydd wedi'i gosod ar y cae mewnol a'r trac, er bod pryderon wedi codi ynglŷn â dŵr yn casglu ar yr wyneb, mae'r Cyngor wedi cael sicrwydd fod hyn i'w ddisgwyl, ac y bydd y mater yn cael ei ddatrys unwaith i'r gwaith ddechrau tyfu. Bydd y rhan nesaf o'r gwaith yn cynnwys gosod cyrbiau ac ymyl y trac, cyn bod modd gosod wyneb synthetig y trac. Mae'r hadau gwair wedi'u lledaenu ar draws y cae pêl-droed mewnol hefyd.

Yn dilyn cais cynllunio llwyddiannus ar gyfer gosod llifoleuadau, dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod seilwaith y colofnau nawr yn cael eu gosod ar y safle ac, yn unol â'r cais cynllunio, caiff y goleuadau eu diffodd am 9.15pm, sy'n rhoi digon o amser i ddefnyddwyr adael y safle'n ddiogel.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes:**

"Gwnaeth y Cynghorydd Hughes sylwadau ynglŷn â'r defnydd mawr sy'n cael ei wneud o'r cyfleusterau, a chyfeiriodd at bryderon rhai o'r trigolion gan ofyn a fyddai'r cyfleusterau yn dal ar gael, ac yn agored, i drigolion yn dilyn y buddsoddiad?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

"Nododd y Cyngorydd Crimmings fod y cyfleuster yn boblogaidd iawn ymhlith grwpiau rhedeg a chwaraeon lleol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan drigolion, rhywbeth y mae hi'n ei weld wrth deithio i Swyddfa'r Cyngor. Cadarnhaodd y Cyngorydd Crimmings y bydd y polisi defnydd cyfredol yn dal yn berthnasol ar ôl i'r gwaith ddod i ben, ac y byddai'r safle ar agor i'r cyhoedd y tu allan i drefniadau bloc."

\*\*\*

**3 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A oes modd i Arweinydd y Cyngor ddarparu diweddariad ar gynnydd y gwaith ar Bont Pontrhonda ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith?"

**Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"Nododd y Cyngorydd Morgan yr anawsterau sy'n wynebu'r Aelod Lleol a thrigolion lleol ar ôl i'r gwaith adnewyddu ar y bont gael ei ohirio ar ôl i'r contractwyr gwreiddiol fynd i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Mawrth 2019, a'r angen i benodi ail gontractwr i fwrw ymlaen â'r gwaith. Gan fod y cynllun yn cynnwys nifer o elfennau dylunio gan y contractwr, roedd hyn wedi arwain at oedi pellach wrth i'r Cyngor benodi contractwr newydd.

Ar ôl penodi Knights Brown yn gontractwr newydd, roedd angen cynnal gwerthusiad o'r gwaith er mwyn nodi unrhyw broblemau o ran y dyluniad a'r broses yswiriant.

Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod y gwaith ar y safle wedi dechrau ym mis Mehefin 2019 gan ychwanegu bod cynnydd cyson wedi bod o ran rhoi prif drawstiau'r bont yn eu lle dros yr haf. Hefyd, mae Dŵr Cymru wedi gorffen y gwaith ar y brif garthfoss ar draws y bont.

Ychwanegodd mai carreg filltir arall oedd gwneud y strwythur yn wrth-ddŵr er bod hyn yn dibynnu ar y tywydd. Rhoddodd wybod y byddai'r bont droed dros dro yn cael ei symud, gwaith ar strwythur y bont yn cael ei orffen, a'r bont yn barod i'w defnyddio erbyn mis Rhagfyr 2019, oni bai fod yna dywydd garw rhwng nawr a'r adeg honno.

**Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis:**

Soniodd y Cyngorydd Lewis am y problemau mae trigolion yn eu profi ond cymerodd y cyfle i ddiolch i'r Cyngor am wneud y gwaith yn gyflym ar ôl i'r contractwr gwreiddiol fynd i'r wal.

\*\*\*

**4 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

"A wnaiff arweinydd y Cyngor ddatganiad am y problemau diweddar o ran pobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf ac amlinellu pa gamau mae'r Cyngor yn cymryd i gefnogi pobl ifainc a gweithio gyda'r heddlu i

adnabod y rheiny sy'n achosi'r problemau?"

### **Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Dechreuodd y Cyngorydd Morgan drwy roi gwybod bod y Cyngor yn parhau i roi pwyslais mawr ar ymyrraeth gynnar ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifainc, gan weithio'n rhan o Bartneriaeth Cymunedau Diogel amlasiantaeth. Mae hyn yn cynnwys perthynas waith agos rhwng Heddlu De Cymru a nifer o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys addysg, troseddau ieuencid, Cymunedau Diogel, ymgysylltiad ieuencid a Theuluoedd Cydnerth.

Nododd mai Canol Tref Pontypridd oedd canolbwynt yr anhrefn ymhlith pobl ifainc a brofwyd yn RhCT yn gynnar yn yr haf, a bod digwyddiadau ynysig wedi bod yn Aberpennar ac Aberdâr, gyda phobl ifainc yn teithio'n ôl ac ymlaen rhwng canol y trefi. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn ymwybodol bod nifer fawr o bobl ifainc yn ymgasglu yng nghanol tref Pontypridd yn ystod y digwyddiad wedi peri cryn bryder i drigolion a chymunedau a rhoddodd wybod bod yr Heddlu, y Cyngor a'u partneriaid wedi cydweithio i ymateb ar frys i'r digwyddiad ar y noson honno. Roedd ymchwiliadau wedi arwain at weithredu cadarnhaol, gyda nifer o bobl yn cael eu harestio a thro 50 o bobl ifainc wedi'u hatgyfeirio i brosesau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cymunedau Diogel.

Cafodd yr Aelodau wybod, yn dilyn y digwyddiad, cydnabu'r Cyngor yr angen i ymateb i'r 'argraff' fod cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifainc, a chafodd ymgyrch amlasiantaeth (Ymgyrch Neptiwn) ei gweithredu ar draws RhCT ar hyd yr haf, a oedd yn canolbwyntio ar addysg, ymgysylltiad a dulliau gorfodi. Rhoddodd y Cyngor gyllid ychwanegol i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn benodol ar gyfer mentrau addysg ac ymgysylltu.

Pwysleisiodd y Cyngorydd Morgan fod anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifainc yn parhau i fod yn isel yn RhCT o'i gymharu ag ardaloedd eraill, er fe ychwanegodd fod y Cyngor yn parhau i ymrwymo i ganolbwyntio'n fwy ar ymyrraeth gynnar ac atal. Cafodd yr Aelodau wybod bod dadansoddiad ac adolygiad llawn o Ymgyrch Neptiwn yn mynd rhagddynt, ond roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod gweithredoedd y Cyngor a'i bartneriaid wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifainc yn ystod 2019 o'i chymharu â blynyddoedd eraill.

### **Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Brencher:**

Gofynnodd yr Aelod a oedd modd i'r Cyngorydd Morgan ymhelaethu ar y mesurau dargyfeirio sydd yn eu lle i osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifainc, a'r gweithgareddau sydd ar gael i bobl ifainc ym Mhontypridd.

### **Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Manteisiodd y Cyngorydd Morgan ar y cyfle i egluro sefyllfa'r Cyngor o ran y gweithgareddau sydd ar gael i bobl ifainc yng Nghanol Tref Pontypridd, gan nodi, yn dilyn cau Canolfan Gelf y Miwni, fod darpariaeth ar gyfer pobl ifainc ar gael yn y Lido a Chlwb Rygbi Pontypridd, a bod y rhain heb ddod i ben. Cafodd yr aelodau wybod bod adborth o'r

gweithgareddau hyn yn dangos bod nifer i bobl yn manteisio ar y ddarpariaeth yn y lleoliadau. Rhoddodd y Cynghorydd Morgan wybod, unwaith y bydd y Miwni yn ail-agor, y bwriad yw symud y ddarpariaeth yn ôl yno ac i wella'r hun sy'n cael ei gynnig ymhellach.

\*\*\*

## **5 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A wnaiff Arweinydd y Cyngor roi diweddariad ynglŷn â chynnydd Cynllun 3 Blynedd y Priffyrdd, gwerth £23.5 miliwn?"

### **Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol wybod bod gwella priffyrdd y Sir yn parhau'n rhan graidd o ymrwymiad y Cyngor i wella cysylltiadau trafnidiaeth i drigolion, ymwelwyr a busnesau. Siaradodd y Cynghorydd Morgan yn rhinwedd ei swydd fel y deilydd portffolio, gan ddweud bod y cyllid sylweddol wedi'i neilltuo i'r maes yma am yr unfed mlynedd ar ddeg, a bod hynny wedi cyfrannu at leihau'r ganran o'r heolydd sydd angen gwaith cynnal a chadw i 4.8% yn 2018/19. 15.7% oedd y ffigur yn 2010/2011.

Dywedodd wrth yr aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar Gynllun Gwella'r Priffyrdd 3 mlynedd, sydd werth £23.5 miliwn, a bod gwaith sylweddol wedi'i wneud yn y 6 mis ers dechrau'r cynllun. Parhaodd y Cynghorydd Morgan drwy gadarnhau bod 125 o gynlluniau ffyrdd cerbydau a 50 o gynlluniau gwella ffyrdd troed wedi'u datblygu ar gyfer y flwyddyn gyntaf, a hyd yn hyn, roedd 74 o gynlluniau ffyrdd cerbydau a 24 cynlluniau ffyrdd troed wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

Daeth yr aelod a'i sylwadau i ben trwy ddweud bod buddsoddiad sylweddol fel hwn ar draws yr Awdurdod yn golygu ei bod yn bwysig bod y contractwyr a'r labwyr iawn yn cael eu penodi i gyflawni'r cynlluniau.

### **Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones:**

Gofynnodd y Cynghorydd D. Owen-Jones am eglurhad ynglŷn â sut mae'r Awdurdod yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a sut y bydd RhCT yn elwa o fuddsoddiad o'r fath dros dair blynedd o ran y gymhariaeth hon?

### **Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

Nododd y Cynghorydd Morgan fod £20 miliwn wedi'i neilltuo, yn rhan o setliad y gyllideb, ar gyfer cynnal a chadw'r priffyrdd, a rhoddodd wybod bod pob awdurdod lleol wedi buddsoddi'n helaeth yn y maes yma, ond doedd dim un awdurdod lleol arall wedi buddsoddi i'r un graddau â RhCT. Ychwanegodd fod yr Awdurdod yn y chwartel uchaf, ac os bydd y lefel yma o fuddsoddi'n parhau, bydd yn parhau yn y safle yma, ac o bosibl bydd yr Awdurdod yn cyrraedd y 3 uchaf yng Nghymru. Soniodd y Cynghorydd Morgan am fuddion ychwanegol y buddsoddiad, sef y gostyngiad yn nifer y bobl yn cwmpo, hawliadau yswiriant a'r effaith gadarnhaol o safbwynt lleihau nifer y damweiniau sy'n cael eu hatgyfeirio i'r NHS a'r amser a dreuliyd yn yr ysbyty. Daeth y Cynghorydd Morgan

a'i sylwadau i ben trwy ddweud mai buddsoddiad fel hwn yw'r hyn y mae'r cyhoedd ei eisiau gan yr Awdurdod.

\*\*\*

**6 Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

"A wnewch chi adrodd ar weithgareddau'r haf a gynhaliwyd yn Rhondda Cynon Taf?"

Rhoddodd y Cynghorydd Crimmings wybod bod y Cyngor yn cynnig nifer o weithgareddau chwaraeon yr haf i blant ledled Rhondda Cynon Taf trwy gynlluniau chwarae'r haf. Un o'r lleoliadau yw Hwb i'r Teulu Cwmparc, Treorci.

Roedd cynnig Nofio am Ddim ar gael mewn pyllau ar draws RhCT, ac roedd mynediad cyffredinol a gwersi nofi strwythuredig ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener ar hyd gwyliau'r ysgol. Aeth yn ei blaen i sôn fod pob un o ganolfannau hamdden y Cyngor wedi cynnig defnydd am ddim o'r cyrtiau pel-droed, badminton a sboncen i blant, yn ogystal â'r cynnig Nofio am Ddim. Daeth y Cynghorydd Crimmings a'i sylwadau i ben trwy roi gwybod i'r aelodau bod pob rhiant yn RhCT wedi cael cynnig gostyngiad i'w blant ddefnyddio ystafelloedd ffitrwydd y Cyngor a mynd i ddosbarthiadau ffitrwydd dros yr haf. Roedd modd iddyn nhw wneud hyn ar hyd gwyliau'r ysgol am £20, ac roedd dros 600 o blant ysgol wedi manteisio ar y cynnig.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Davies:**

"Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y pyllau padlo a gafodd eu rhedeg gan grwpiau gwirfoddol dros yr haf, a oedd yn brofiad cadarnhaol i blant a rhieni, gan dalu teyrnged i bob grŵp gwirfoddol a'u llongyfarch ar eu llwyddiant ysgubol. Cyfeiriodd yr Aelod at y problemau a gododd gyda phwll Butchers, Ynys-y-bŵl, lle roedd angen cau'r pwll am gyfnod estynedig gan nad oedd modd codi'r £700 i dalu cost y Cyngor am Achubwyr Bywydau. Ychwanegodd fod cau'r pwll am bythefnos fel hyn yn siomedig, a gofynodd sut y byddai'r Cyngor yn ymdrechu i osgoi hyn yn y dyfodol, a p'un a fyddai'r Cyngor yn barod i ariannu Achubwyr Bywydau am gyfnod o 6 wythnos yr wythnos nesad er mwyn sicrhau bod modd i'r pyllau aros ar agor drwy gydol gwyliau'r haf?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

"Nododd y Cynghorydd Crimmings fod llawer o gamgyfathrebu wedi digwydd ynglŷn â'r pwll dan sylw, a chytunodd fod cau'r pwll am bythefnos wedi bod yn destun siom i'r Cyngor a'i drigolion. Dywedodd yr Aelod fod gwaith crynhoi'n mynd rhagddo, ac ychwanegodd fod cyflwyniad llawn wedi'i ddarparu i'r grwpiau gwirfoddol ar ddechrau'r gwaith, a oedd yn cynnwys cwestiynau ac atebion. Ar ôl gweld y cyflwyniad, cytunodd y sefydliadau gwirfoddol i gymryd rhan, a phwysleisiodd y Cynghorydd ei bod hi'n bwysig i sefydliadau ddarllen yn drylwyr am yr hyn maen nhw'n ei lofnodi.

\*\*\*



## 58 ARCHWILIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd Mr C Davies, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Adroddiad Archwiliad Gwella Blynyddol 2018-19 ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf i'r Aelodau. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Prif Archwilydd gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Cadarnhaodd Mr Davies fod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus, a dywedodd fod yr Adroddiad Archwiliad Gwell Blynyddol yn adroddiad cadarnhaol ar gyfer y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth a nifer o ymholiadau a gafodd eu hegluro gan Mr Davies a'r Swyddogion mewn perthynas â hunanwerthuso craffu yn yr Awdurdod, cyfraniad y Pwyllgor Cynllunio at wella lles, adolygu trefniadau'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chyhoeddi'r wybodaeth am adrodd ar y gyllideb, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 59 RHAGLEN WAITH

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu, wrth Aelodau am y diweddariadau i Raglen Waith y Cyngor a chadarnhaodd y byddai cyfarfod y Cyngor a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror yn cael ei symud ymlaen i 5 Chwefror 2020. Yn ogystal â hynny, dywedodd y byddai'r Siarter Gymunedol bellach yn cael ei thafod ar agenda'r Cyngor ym mis Tachwedd o ganlyniad i'r newidiadau i agenda mis Hydref sydd wedi'u nodi eisoes gan yr Arweinydd.

## 60 DIWEDDARIAD YNGLYN Â BREXIT

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar i'r Aelodau mewn perthynas â Brexit, gan roi sylwadau ar y digwyddiadau diweddar o ran atal y Senedd a'u goblygiadau. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth gyfredol y penderfyniad hwn gan y Goruchaf Lys. Nododd y Prif Weithredwr fod y Prif Weinidog yn gwrthod mynd i drafod ymestyn y dyddiad gadael, sydd angen ei gytuno gyda'r UE erbyn 19 Hydref. Nododd y byddai goblygiadau o'r fath yn golygu y gallai'r DU adael yr UE heb fargen 12 ddiwrnod yn ddiweddarach. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod cyfle o hyd i'r DU a'r UE gytuno ar fargen, pe bai'r ddwy ochr yn barod i gyfaddawdu a mynd i'r afael â datrys problemau "backstop" Iwerddon. Os na chytunir ar estyniad neu fargen, gallai'r DU barhau i adael yr UE ar 31 Hydref heb unrhyw fargen.

Clywodd yr Aelodau hefyd, pe na bai Senedd y DU wedi cytuno i Etholiad Cyffredinol neu refferendwm newydd, efallai na fyddai rhai gwledydd Ewropeaidd yn cefnogi estyniad pellach, gan nad ydynt yn gweld fawr o bwynt i ymestyn y dyddiad pan na all y DU amlinellu bargaen amgen. Gyda'r holl ansicrwydd yma, mae'r UE wedi cynyddu ei baratodau ar gyfer Brexit Dim Bargaen.

Clywodd yr Aelodau am y gwaith a wnaed hyd yma mewn gwahanol feysydd gan gynnwys hynny mewn rhai porthladdoedd mawr sy'n trin bwyd ffres a chydannau diwydiannol i allu clirio tollau ar-lein sianel ganol, diogelu teithio heb fisa rhwng y DU a'r UE a'r mesurau sydd ar waith i ddiogelu talu pensiynau i'r mwyafrif o wladolion y DU a'r UE sy'n byw dramor yn y DU.

Adroddodd y Prif Weithredwr ymhellach ar y camau a gymerwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r goblygiadau ar y Fwrdeistref Sirol:

- Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
- Nwyddau a Gwasanaethau
- Mynediad at Ddata/Systemau Gwybodaeth/GPDR
- Trwyddedau masnach amrywiol
- Busnesau - darparu gwybodaeth wedi'i diweddarau fel y bo'n briodol.
- Trafodaeth gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus - aflonyddwch sifil posibl
- Etholiad Cyffredinol - cynllunio wrth gefn ar gyfer Etholiad Cyffredinol o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cynllunio ar gyfer Brexit Dim Bargen wedi bod yn anodd er bod y Cyngor wedi ceisio gwneud cymaint â phosibl, ond ychwanegodd fod cryn ansicrwydd o hyd ynghylch ymateb 27 gwlad yr UE a phartneriaid masnachu eraill wrth orfod rhoi rheolau masnach Sefydliad Masnach y Byd ar waith, sydd ddim yn gallu ffafrio'r DU heb fargen fasnach y cytunwyd arni.

Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad bod Grant Thornton, a benodwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi cynnal asesiad o baratodau Brexit y Cyngor yr wythnos yma, ac roeddent o'r farn bod y Cyngor wedi gwneud yr hyn sy'n rhesymol o fewn ei allu i liniaru'r risgiau hysbys.

Gwnaeth Arweinwyr y Grwpiau sylwadau ar y diweddariad a'r ansicrwydd o ran Brexit, gan ychwanegu nad oes modd rhoi'r paratodau sydd angen eu gwneud ar waith yn llawn oherwydd yr ansicrwydd, gan ychwanegu y byddai lles preswylwyr a busnesau'r Fwrdeistref Sirol bob amser yn hollbwysig.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad a ddarparwyd.

61

## **ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL Y CYNGOR GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol drosolwg byr o'r adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn cyflwyno cynigion drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ynghylch ei adolygiad o Drefniadau Etholiadol y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod am sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r cynigion drafft hynny gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gafodd eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad a'u cyflwyno i'r Comisiynydd i'w hystyried, ac adroddodd y Cyfarwyddwr ymhellach ar yr amserlen ar gyfer cynnal gweddill adolygiad y Comisiwn. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa fod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â'r cynigion drafft wedi cau ar 17 Medi 2019.

**PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Nodi Cynigion Drafft y Comisiwn mewn perthynas â Threfniadau Etholiadol y Cyngor yn y dyfodol, fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Cynigion Drafft y Comisiwn;
2. Nodi'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2019 mewn perthynas â Chynigion Drafft y Comisiwn, a gyflwynwyd i'r Comisiwn; a
3. Nodi'r amserlen, a amlinellir ym mharagraffau 3.15 - 3.17 o'r adroddiad, mewn perthynas â'r broses ar gyfer cynnal gweddill yr adolygiad gan y Comisiwn

(D.S Pleidleisiodd Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Powell ac W.Owen yn erbyn yr argymhellion gan ddymuno i'w henwau gael eu cofnodi)

## 62 **DIWEDDARIAD AR RYBUDD O GYNNIG - ISADEILEDD CERBYDAU CARBON ISEL (LCV) YN RHONDDA CYNON TAF**

Er gwybodaeth, soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau am ganfyddiadau a deg argymhelliad y Gweithgor Trosolwg a Chraffu a sefydlwyd i ystyried datblygu Seilwaith i gefnogi Perchnogaeth Cerbydau Carbon Isel yn Rhondda Cynon Taf yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a drafodwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018. Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M.Griffiths a J.Bonetto:

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai pob un o'r deg argymhelliad, a gafodd eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 3 Medi 2019 (yn amodol ar fân ddiwygiadau i argymhelliad 9), yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 24 Medi.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r adolygiad a gynhaliwyd yn dilyn y Rhybudd o Gynnig y cytunwyd arno yn y Cyngor, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
2. Nodi y byddai'r 10 argymhelliad sy'n deillio o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (fel sydd wedi'u rhestru isod) yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 24 Medi 2019:
  - i. *'Dylai'r Cyngor geisio gwella argaeledd a hygyrchedd ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus yn y tymor byr mewn mannau allweddol y Cyngor megis canolfannau hamdden a chyrchfannau twristiaeth'.*
  - ii. *'Dylai'r Cyngor ystyried camau i hwyluso seilwaith i gefnogi'r cynnydd a ragwelir yn y defnydd o gerbydau trydan ac ystyried sut y gallai'r camau hyn annog preswylwyr ar draws pob rhan o RCT i ddewis prynu cerbyd trydan. Fel rhan o hyn, dylai'r Cyngor gynnwys preswylwyr a*

*chydweithio â busnesau a'r sector cyhoeddus ehangach wrth ddatblygu'r cynigion hyn. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried y cyfleoedd masnachol sydd ar gael iddo.'*

- iii. *'Dylai'r Cyngor ystyried datblygu canllawiau cynllunio atodol i sicrhau bod modd cynnal seilwaith gwefru cyflym mewn datblygiadau preswyl ac sydd heb fod yn rhai preswyl. Gan edrych at y dyfodol, dylai'r Cyngor ystyried nawr, sut y gallai dyluniad trefol ehangach ategu'r esblygiad i drafnidiaeth drydan a newidiadau ehangach mewn ymddygiad symudedd a thrafnidiaeth yn y tymor hwy. Dylai'r Cyngor osgoi ystyried seilwaith Cerbydau Trydan fel un mater, ond yn hytrach dylai gymryd dull integredig trwy ystyried sut mae cynhyrchu a chyflenwi ynni i gefnogi'r gostyngiad ehangach yn yr ôl troed carbon. Mae'r Gweithgor Craffu yn credu y gallai dull rhagweithiol atal unrhyw heriau yn y dyfodol o'r cychwyn ac atal y Cyngor rhag cael ei gosbi'n ariannol pe bai cosbau ariannol llym am gerbydau allyriadau uwch yn cael eu cyflwyno'.*
- iv. *'Fel rhan o adnewyddu fflyd yn y dyfodol, dylai'r Cyngor geisio troi at Gerbydau Trydan yn lle cerbydau petrol neu ddisel cyfredol. Lle gall ystod o gerbydau o'r fath achosi problemau gweithredol ar hyn o bryd, dylai'r Cyngor ystyried opsiynau hybrid / hybrid ysgafn neu'r opsiynau petrol / diesel sydd â'r dechnoleg ddiweddaraf sy'n cwrdd â Safon Ewro 6, neu'n rhagori arni. Mae'r Gweithgor o'r farn y gellid gwneud hyn trwy dreialu cerbydau trydan / cerbydau hybrid o fewn Gwasanaeth Cyngor priodol fel Pryd ar Glud i weld sut y gall fod yn hyfyw ac yn gost-ffeithiol i'r Cyngor. O ganlyniad i gyflymder y gwelliant yn yr ystod Cerbydau Trydan, dylai'r Cyngor adolygu cyfleoedd yn y tymor canolig i'r tymor hwy yn barhaus i ddewis, lle bo hynny'n bosibl, opsiynau trydan / hybrid. Dylai ymrwymiad o'r fath fod yn seiliedig hefyd ar yr arbedion referniw posibl mewn costau rhedeg fflyd'.*
- v. *'Mae'r Gweithgor o'r farn y gallai dull partneriaeth ehangach o ddatblygu seilwaith Cerbydau Trydan leihau rhai o'r heriau gweithredol sydd i'w cael ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau o ran yr ystod bresennol o Gerbydau Trydan. Roedd y Grŵp hefyd o'r farn bod potensial enfawr mewn dull rhanbarthol cydweithredol yn ehangach ar draws y Brifddinas-Ranbarth'.*
- vi. *'Wrth i dechnoleg newid, dylai'r Cyngor ddechrau nawr ystyried sut mae'n ymateb i'r symud tuag at gerbydau trydan yn y dyfodol rhwng nawr a dyddiad cau Llywodraeth y DU ar gyfer cynhyrchu peiriannau tanio, nid dim ond ar lefel arweinyddiaeth gymunedol strategol. Dylai'r Cyngor ystyried sut y gall annog darparwyr galwedigaethol lleol i ymateb i'r newid yn y dechnoleg sy'n dod i'r amlwg a datblygu cyrsiau perthnasol a fydd yn datblygu'r sgiliau mecanyddol sy'n ofynnol i gynnal a gwasanaethu cerbydau trydan'.*
- vii. *'Dylai'r Cyngor ystyried rhoi baich ar ei gadwyn gyflenwi i gefnogi dull Cerbydau Trydan neu Gerbydau Carbon Isel, mewn meysydd fel Cludiant i Ddisgyblion (ysgol) a thrwyddedau Tacsî'.*
- viii. *'Mae'r Gweithgor yn credu y dylai'r Cyngor alw ar Lywodraeth Cymru i*

*gymryd agwedd fwy rhagweithiol wrth hwyluso seilwaith Cerbydau Trydan i sicrhau bod Cymru yn arwain o'r tu blaen a'i bod yn y sefyllfa orau i sicrhau'r cyfleoedd economaidd posibl. Credai'r Grŵp hefyd y dylai'r Cyngor alw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau mwy radical mewn perthynas â chymell newid i gerbydau trydan, gan ddysgu o'r enghraifft a osodwyd gan yng ngwledydd Sgandinafia'.*

- ix. *Nododd y Gweithgor y byddai'r holl ddigwyddiadau mawr a gynhelir gan RCT yn elwa o gael y seilwaith gwefru trydan priodol ar waith ar gyfer yr ymwelwyr trwy gydol y digwyddiad. Cred y Gweithgor y dylai'r Cyngor ymchwilio i weithrediad y seilwaith priodol (symudol) er mwyn dangos ei ymrwymiad i'r amgylchedd lleol, helpu i ddarparu ar gyfer anghenion ymwelwyr o ran gwefru, a dangos arweinyddiaeth mewn diwydiant sy'n dod i'r amlwg. Roedd y gweithgor hefyd yn cydnabod yr angen i hyrwyddo rôl trafnidiaeth gyhoeddus a theithio egniol wrth gynllunio rheoli digwyddiadau yn y dyfodol'.*
- x. *'Mae'r gweithgor hefyd yn galw ar y Cyngor y cydnabod bod rhaid cynllunio'n effeithio nawr er mwyn sicrhau cynladwyedd yr economi leol yn y tymor hwy.'*

## **63 NEWID AELODAETH**

Yn unol â'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng Nghofnod Rhif 13(1) o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 15 Mai 2019, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu ei fod wedi derbyn hysbysiad gan y Grŵp Llafur o newidiadau i'w aelodaeth o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc

### **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi y bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries ar y Pwyllgor.

## **64 RHYBUDD O GYNNIG**

Cafodd Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Davies, K.Morgan, P.Jarman, S.Rees Owen, M.Weaver, E.Webster, D.Grehan, H.Fychan, D.Macey, A.Cox, J.Williams, J.Davies, J.Cullwick, E.Stephens, L.Jones, A.Chapman and S.Evans ei drafod:

"Gyda dyfodiad y Metro sydd wedi'i gymeradwyo yn 2022, ynghyd â'r dyheadau sydd wedi'u nodi yn strategaeth Dwristiaeth arfaethedig y Cyngor, mae hi bellach yn bryd i ni alw am ddatblygu'r rheilffyrdd ymhellach yn y Sir yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Gyd-gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymrwymo i ymestyn llinell deithwyr Aberdâr i Hirwaun, yn amodol ar ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar leoliad yr orsaf fel ei bod yn hygyrch ac yn cael defnydd llawn.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar Gyd-gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-

Ranbarth Caerdydd i ymestyn llinell Treherbert i Dynewydd, yn amodol ar y ffaith ei fod e wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol adolygedig RhCT."

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cyflwynodd y cynigydd newid i'r Cynnig, i gynnwys:

*"A dylai'r mater gael ei gyfeirio at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor i'w ystyried, gan ehangu'r Cynnig i gynnwys ôl-troed ehangach y Fwrdeistref Sirol.*

Dyma'r Cynnig wedi'i ddiwygio:

"Gyda dyfodiad y Metro sydd wedi'i gymeradwyo yn 2022, ynghyd â'r dyheadau sydd wedi'u nodi yn strategaeth Dwristiaeth arfaethedig y Cyngor, mae hi bellach yn bryd i ni alw am ddatblygu'r rheilffyrdd ymhellach yn y Sir yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yma felly'n galw ar Gyd-gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymrwmo i ymestyn llinell deithwyr Aberdâr i Hirwaun, yn amodol ar ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar leoliad yr orsaf fel ei bod yn hygyrch ac yn cael defnydd llawn.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar Gyd-gabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ymestyn llinell Treherbert i Dynewydd, yn amodol ar y ffaith ei fod e wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol adolygedig RhCT.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu cyfeirio'r mater i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor i'w ystyried ymhellach, gan ehangu'r Cynnig i gynnwys ôl-troed ehangach y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cyfeirio'r Rhybudd o Gynnig ynghyd â'r newid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w ystyried.

\*\*\*

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, M. Webber, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis and R. Yeo:

"Ar ôl bron i ddegawd o gynt cyllidol yn y sector cyhoeddus a'r toriadau milain ar draws cyllid y sector cyhoeddus a orfodwyd gan Lywodraeth San Steffan yn olynol dan arweiniad y Ceidwadwyr, mae'r Cyngor yma'n nodi'r golled syfrdanol o 60 ceiniog allan o bob £1 a roddwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth San Steffan dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Cyngor yma'n awyddus i gofnodi sut mae'r trefniant anghynladwy yma'n rhoi baich sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n cael eu darparu gan Gynghorau, ac yn parhau i wthio awdurdodau lleol tuag at bwynt argyfwng wrth i'r gofynion ar wasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg barhau i gynyddu.

Yn rhan o hyn, mae staff gweithgar y sector cyhoeddus hefyd wedi dioddef trwy flynyddoedd o atal cyflogau, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyflogau mewn termau real, er gwaethaf llwythi gwaith cynyddol ac ansicrwydd o ran swyddi. O ganlyniad, hoffai'r Cyngor yma gofnodi ei ddiolch am y cyfraniad aruthrol y mae staff Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei wneud bob dydd wrth ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl mewn amgylchiadau heriol.

**Mae'r Cyngor yma o'r farn:**

- Bod maint y cyni wedi cyrraedd pwynt lle gallai dyfarnu codiad cyflog cyfiawn hyd yn oed fygwth gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.
- O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gymryd cyfrifoldeb ac ariannu cynnydd teg yng nghyflog staff y Cyngor yn llawn, a pheidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol.

**Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:**

- Cefnogi ein cydweithwyr mewn Undebau Llafur i fynnu setliad cyflog teg, wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer staff y Cyngor.
- Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CLIL i gyflwyno achos i Lywodraeth y DU.
- Ysgrifennu at y Canghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i alw am ariannu codiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol gydag arian newydd gan Lywodraeth San Steffan.
- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad am gyflog.
- Parhau i annog holl weithwyr y Cyngor i ymuno ag undeb llafur."

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, S. Rees-Owen, M. Weaver, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, L. Jones, E. Stephens, H. Fychan, D. Grehan, K. Morgan, E. Webster, D. Macey, A. Chapman a S. M. Evans:

"Ar ôl bron i ddegawd o gynt cyllidol yn y sector cyhoeddus a'r toriadau milain ar draws cyllid y sector cyhoeddus a orfodwyd gan Lywodraeth San Steffan yn olynol dan arweiniad y Ceidwadwyr, mae'r Cyngor yma'n nodi'r golled syfrdanol o 60 ceiniog allan o bob £1 a roddwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth San Steffan dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Cyngor yma'n awyddus i gofnodi sut mae'r trefniant anghynaliadwy yma'n rhoi baich sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n cael eu darparu gan Gynghorau, ac yn parhau i wthio awdurdodau lleol tuag at bwnt argyfwng wrth i'r gofynion ar wasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg barhau i gynyddu.

Yn rhan o hyn, mae staff gweithgar y sector cyhoeddus hefyd wedi dioddef trwy flynyddoedd o atal cyflogau, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyflogau

mewn termau real, er gwaethaf llwythi gwaith cynyddol ac ansicrwydd o ran swyddi. O ganlyniad, hoffai'r Cyngor yma gofnodi ei ddiolch am y cyfraniad aruthrol y mae staff Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei wneud bob dydd wrth ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r Cyngor yma o'r farn:

- Bod maint y cyni wedi cyrraedd pwynt lle gallai dyfarnu codiad cyflog cyfiawn hyd yn oed fygwth gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.
- O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb ac ariannu cynnydd teg yng nghyflog staff y Cyngor yn llawn, a pheidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Cefnogi ein cydweithwyr mewn Undebau Llafur i fynnu setliad cyflog teg, wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer staff y Cyngor.
- Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol i gyflwyno achos i Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru.
- Ysgrifennu at y Canghellor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i alw am ariannu codiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol gydag arian newydd gan Lywodraeth San Steffan.
- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad am gyflog.
- Parhau i annog holl weithwyr y Cyngor i ymuno ag undeb llafur."

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â'i mabwysiadu.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadau'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm**

**Cllr S Powderhill  
Cadeirydd.**